OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2671 (Cy.235)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hereditamentau Cyfathrebu) (Prisio, Newid Rhestri ac Apelau a Diwrnod Perthnasol) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*6 Hydref 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*8 Hydref 2008*
Yn dod i rym - -	*31 Hydref 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 55(2), (4) a (6), 143(1) a (2) a 146(6), o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 2(6A) ac (8) o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno(**1**) ac a freinir bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**).

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hereditamentau Cyfathrebu) (Prisio, Newid Rhestri ac Apelau a Diwrnod Perthnasol) (Cymru) 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Hydref 2008.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 1988 p. 41. Diwygiwyd adran 55(4) a pharagraff 2(8) o Atodlen 6, a mewnosodwyd paragraff 2(6A) o Atodlen 6, gan baragraffau 30(2), 38(8) a 38(6), yn eu trefn, o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42).

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), gweler y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

ystyr "BT" yw British Telecommunications plc;

ystyr "Deddf 1988" ("*1988 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

ystyr "dolen leol a ddadfwndelwyd yn llawn" ("*fully unbundled local loop*") yw dolen leol a ddadfwndelwyd sydd wedi ei gosod ar rent neu ei thrwyddedu gan BT i unrhyw berson ar gyfer pob defnydd sy'n gynwysedig mewn monitro, prosesu neu drosglwyddo cyfathrebiadau neu signalau ar gyfer darparu gwasanaethau cyfathrebu electronig;

mae i "ddolen leol a ddadfwndelwyd" yr ystyr a roddir i ("*unbundled local loop*") gan reoliad 8(5) o'r Rheoliadau Rhestr Ganolog;

"yr hereditament" ("*the hereditament*") yw'r hereditament a ddisgrifir yn rheoliad 8(1) o'r Rheoliadau Rhestr Ganolog

ystyr "Rheoliadau NRhA" ("*ALA Regulations*") yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005(**3**); ac

ystyr "Rheoliadau Rhestr Ganolog" ("*Central List Regulations*") yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005(**4**).

RHAN 2

Prisio

Prisio hereditamentau cyfathrebu penodol

3. Rhaid rhagdybio bod gosod ar rent neu drwyddedu dolen leol a ddadfwndelwyd yn llawn gan BT i unrhyw berson yn fater sy'n effeithio ar gyflwr ffisegol yr hereditament neu fwynhad ffisegol ohono at y diben o brisio'r hereditament yn unol â pharagraff 2(5) neu (6) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 (ardrethu annomestig: prisio).

RHAN 3

Newid Rhestri ac Apelau

Newid perthnasol mewn amgylchiadau

4.—(1) Ceir gwneud cynnig i newid y gwerth ardrethol a ddangosir ar gyfer yr hereditament mewn rhestr ardrethu canolog a luniwyd ar 1 Ebrill 2005 neu ar ôl hynny, o dan reoliad 4(1)(b) (amgylchiadau pan ganiateir gwneud cynigion) a Rhan 3 (newid rhestri ardrethu canolog) o'r Rheoliadau NRhA, o ganlyniad i osod ar rent neu drwyddedu dolen leol a ddadfwndelwyd yn llawn gan BT i unrhyw berson.

(2) Mewn perthynas â chynnig o'r fath, mae rheoliad 4(1)(b) o'r Rheoliadau NRhA i gael effaith fel pe bai "material change of circumstances" yn cynnwys y mater y rhagdybir gan reoliad 3 yn y Rheoliadau hyn fel ei fod yn effeithio ar gyflwr ffisegol yr hereditament neu fwynhad ffisegol ohono at y diben o'i brisio yn unol â pharagraff 2(5) neu (6) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988.

(**3**) O.S. 2005/758(Cy.63), y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) O.S. 2005/422(W40), a ddiwygiwyd gan O.S. 2008/2671 (Cy.235); diwygiwyd hefyd gan offerynnau eraill, ond nid oes yr un yn berthnasol.